**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Rhagfyr 2006**

## YR ARBEDION ARIANNOL AMCANGYFRIFEDIG AR ORSAFOEDD CRIW DYDD

**Adroddiad gan Paul Claydon**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I ddiweddaru'r Aelodau o'r arbedion ariannol sy'n gysylltiedig â'r amseroedd shifft newydd mewn gorsafoedd criw dydd.

### Cyflwyniad

**2.** Yng nghyfarfod yr Awdurdod gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2004 penderfynodd yr Aelodau er mwyn cyfatebu risg ac adnoddau mewn ffordd mwy effeithiol, dylid cyflwyno amser cychwyn a gorffen hwyrach i ddiffoddwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd. Roedd hyn wedi cael ei adnabod fel rhan o'r broses Cynllun Integredig Rheoli Risg.

**3.** Ar y 6ed Ionawr 2005 newidiodd gorsafoedd criw dydd eu hamseroedd cychwyn a gorffen o 08:00awr tan 18:00awr i 12:00awr tan 22:00awr.

**4.** Effaith ariannol y newid hwn yw fod yr Awdurdod yn derbyn costau ychwanegol am ddigwyddiadau rhwng 06:00awr a 10:00awr, ond costau gostyngol am ddigwyddiadau rhwng 18:00awr a 22:00awr.

**Cefndir**

**5.** Gwnaeth Aelodau nodi adroddiad y 19eg Medi 2005 oedd yn dangos sut oedd y Gwasanaeth yn mynychu dwywaith yn fwy o alwadau yn ystod yr amseroedd fin nos newydd ag oedd yn cael eu mynychu yn ystod yr hen gyfnod boreol. Mae'r gymhareb hon yn dal i fodoli er fod cyfanswm y niferoedd o alwadau mae'r Gwasanaeth yn eu mynychu wedi disgyn yn gyffredinol (Atodiad 1).

**6.** Nododd yr Aelodau adroddiad 19eg Rhagfyr 2005 ar arbedion ariannol o'r system criw dydd a phenderfynwyd dylid cynhyrchu adroddiad mewn deuddeg mis i roi diweddariad ar yr arbedion gynhyrchwyd. Cyfeirir at y materion hyn yn yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth**

**7.** Mae Atodiad 2 yn amcangyfrif yr arbedion ariannol gynhyrchwyd gan y newid yn yr amseroedd cychwyn/gorffen yn 2005-06.

**8.** Ar gyfer digwyddiadau rhwng 18:00awr a 22:00awr, pan fydd criwiau nawr yn ymateb o fewn eu horiau cyflogedig arferol, defnyddir amcangyfrif ar gyfer y taliadau ychwanegol fyddai'n debygol o fod wedi cael eu gwneud cyn y newid. Amcangyfrifir hyn yn geidwadol ar sail digwyddiad yn para awr yn unig. Mae amcangyfrif ar wahân wedi cael ei gyfrifo ar gyfer pob gorsaf criw dydd, gan gymryd i ystyriaeth ei broffil unigryw yn nhermau faint o aelodau criw fyddai'n mynychu fel arfer, a'u lefelau cyflog.

Mae'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad hwn yr un â'r rhai ddefnyddiwyd yn adroddiad Rhagfyr 2005 i'r Awdurdod Tân.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

Am yr holl ddigwyddiadau rhwng 06:00awr a 10:00awr, mae'r taliadau a wnaed yn hysbys o'r cyflogres.

**9.** Er eglurdeb ychwanegol, mae'r ffigyrau wedi cael eu cyfrifo o ddau bersbectif gwahanol:

a) Seiliedig ar ardal
cynnwys taliadau am fynychu pob digwyddiad o fewn ardal arferol yr orsaf criw dydd, yn cynnwys i griwiau sy'n mynychu o orsafoedd criw dydd eraill neu orsafoedd system ddyletswydd rhan amser;
b) Seiliedig ar orsaf
cynnwys taliadau am bob digwyddiad fynychwyd unrhyw le gan yr orsaf criw dydd, pa un ai yn eu hardal arferol neu thu hwnt.


**10.** Hyd yn oed gydag amcangyfrif ceidwadol byddai'r arbediad mewn cyflog am y flwyddyn ariannol 2005/2006 yn £65,457.30 wrth ddefnyddio'r cyfrifiad yn seiliedig ar ardal, a £64,502.72 yn defnyddio'r cyfrifiad seiliedig ar orsaf.

**Argymhellion**

**11.** Fod aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

## Atodiad 1

### Holl ddigwyddiadau 99/00 i 05/06



**Atodiad 2**

# DIGWYDDIADAU POB CYFNOD AMSER

| | | Taliadau hysbys 06:00 – 10:00 | Amcangyfrif o'r taliadau arbedwyd 18:00 – 22:00 | Arbedion (ardal) | Arbedion (gorsaf) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Llandudno** | Ardal | 9,448.73 | 19,489.17 | 10,040.44 | |
| | Gorsaf | 9,826.89 | 18,969.91 | | 9,143.02 |
| | | | | | |
| **Bae Colwyn** | Ardal | 7,823.01 | 15,644.59 | 7,821.58 | |
| | Gorsaf | 5,315.58 | 15,137.83 | | 9,822.25 |
| | | | | | |
| **Caernarfon** | Ardal | 8,493.54 | 25,012.03 | 16,518.49 | |
| | Gorsaf | 7,985.44 | 23,927.44 | | 15,942.00 |
| | | | | | |
| **Bangor** | Ardal | 9,859.78 | 26,212.39 | 16,352.61 | |
| | Gorsaf | 8,576.90 | 24,134.60 | | 15,557.70 |
| | | | | | |
| **Caergybi** | Ardal | 7,962.59 | 22,686.77 | 14,724.18 | |
| | Gorsaf | 7,106.14 | 21,143.89 | | 14,037.75 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | Ardal | 43,587.65 | 109,044.95 | **65,457.30** | |
| | Gorsaf | 38,810.95 | 103,313.67 | | **64,502.72** |